Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.

© Crown copyright and database rights 2018
Ordnance Survey 100023412

0 5 10 m

N
A



Legend

Surface covering

- Building
- Concrete
- Gravel
- Lawn/planted borders
- Permeable paving

38Craig
Yoon

Area A
(~17 m²)

Area B
(~59 m²)

Area D
(~14 m²)

Area C
(~2 m²)

Area E
(~2 m²)

Area G(1)
(~20 m²)

Area G(2)
(~21 m²)

Area F
(~7 m²)

Notes

Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.

© Crown copyright and database rights 2018
Ofdnance Survey 100023412

0 5 10 m



Legend
Surface covering
Building
Concrete
Lawn/planted borders



Area D
(~43m²)

92Craig
YDon

Area A(2)
(~16 m²)

Area A(1)
(~115 m²)

Area C
(~25 m²)

Area B
(~2 m²)



Notes
Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.

© Crown copyright and database rights 2018
Ordnance Survey 100023412

0 5 10 m



- Legend**
- Surface covering**
- Building
 - Concrete
 - Decking
 - Gravel
 - Lawn/planted borders
 - Tarmac
 - IZ2ISheds/ Greenhouse

Area C
(~40m²)

Area D
(~13 m²)

Area G
(~16m²)

94 Craig
YDon

Area B
(~69 m²)

Area E
(~30 m²)

Area F
(~5 m²)

Area H
(~47 m²)

Area A
(~33m²)

Area I
(~21m²)



Notes

Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.



Z



Legend

Surface covering

- Building
- Concrete
- Gravel
- Lawn/planted borders
- Permeable paving
- [Z]: Shed

Area A
(~32 m²)

103 Craig
Y Don

Area C
(2 m²)

Area B
(~19 m²)

Area D
(~44 m²)

Area E
(~56 m²)




Notes

Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.

© Crown copyright and database rights 2018
Ordnance Survey 100023412

0 5 10 m



Legend

Surface covering

Building

Concrete

Lawn/planted borders

- Permeable paving



Area A
(~15m')

105 Craig
YDon

Area 8
(~2 m')

Area C(2)
(~39 m')

Area C(1)
(~18 m')

Area D(21)
(~133m')

Area E
(~21m')



Notes
Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection.
Surface covering dimensions and areas are approximate.



Legend

- Surface covering**
- Building
 - Concrete
 - Lawn/planted borders
 - Permeable paving



Area C(2)
(~10 m²)

Area C(11)
(~11 m²)

Area E
(~54 m²)

Area B(1)
(~18 m²)

Area A
(~88 m²)


106 Craig
Y Don

Area 8(21)
(~35 m²)

Area G
(~15 m²)

Area F
(~8 m²)

Area D
(~2 m²)



Notes

Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.



Legend

- Surface covering
- Building
 - Concrete
 - Lawn/planted borders
 - Paved
 - Permeable paving
 - Vegetable plot wall



Area A
(~4 m²)

Area H
(3.0 m²)

Area I
(~10 m²)

Area G
(~69 m²)

Area C
(~87 m²)

Area B
(~2 m²)

Area O(21)
(~31 m²)

Area D(1)
(~18 m²)

Area F
(~2 m²)

Area E
(~28 m²)



Notes

Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.

© Crown copyright and database rights 2018
Ordnance Survey 100023412

0 5 10 m



Area H
(~2 m²)

Area G
(~15 m²)

Area O
(~21 m²)

Area B
(~13 m²)

Area E
(~10 m²)

Area C
(~17 m²)

Area F
(~19 m²)

Area J
(~9 m²)

Area K
(~11 m²)

Area I
(~15 m²)

108 Craig
Y Don



Legend

Surface covering

- Building
- Concrete
- Gravel
- Lawn/planted borders
- Paved
- Tarmac

Notes

Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.



Notes
Property boundaries are as shown on OS mapping and have been adjusted (where necessary) based on visual inspection. Surface covering dimensions and areas are approximate.

- Leg end**
- Surface covering**
- Building
 - Concrete
 - Exposed soil
 - Gravel
 - Lawn/planted borders

© Crown copyright and databaserights 2018
Ofdnonce Survey 100023412

0 5 10 m



ATODLEN 1

GWAITH ADFER

3 Craig Y Don

Tŷ preswyl pâr sy'n eiddo i'r Cyngor yw hwn. Fe'i lleolir yn ne-orllewin y stad yn eithaf agos at adeilad yr hen weithfeydd (a allai fod o ddiddordeb i'r archeolegwyr). Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Nid yw mynediad i gefn y tŷ ond yn bosibl ar hyd llwybr sy'n rhedeg ar hyd ochr y tŷ a gellir ei weld mewn ffotograff yn Ffigwr B y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Ceir disgrifiad isod o'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn sydd angen eu hadfer.

Ardal B: Lawnt yw'r ardal hon. Mae'r ardal yn ddigon mawr i greu llwybr neu 'ddreif' (gan ddefnyddio deunyddiau hydraid), er y bydd rhan o'r ardal yn cael ei chadw fel lawnt yn dilyn y gwaith adfer.

Byddai angen cael gwared â digon o bridd yn ardal y dreif er mwyn sicrhau y byddai modd ffurfio'r dreif ar y drychiad priodol. Cafwyd caniatâd eisoes i osod y cyrbin isel ond bydd raid i'r contractwr gael y drwydded angenrheidiol gan yr awdurdod priffyrdd i ymgymryd â'r gwaith yn y lôn. Yn ardal y lawnt, bydd angen cloddio i ddyfnder o 300mm i wneud y gwaith adfer ac yna ail-osod y lawnt.

Ardal C: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer, bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 300mm o lefel y ddaear.

Ardal D: Llwybr graean sydd yn yr ardal hon ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 600mm o lefel y ddaear.

Ardal E: Ardal wedi ei graeanu gyda wal addurnol isel yn ei hamgylchynu ar waelod yr ardd. Cynigir creu patio concrit yn yr ardal hon a fydd yn creu rhwystr rhag unrhyw amlygiad i lygredd yn yr ardal hon yn y dyfodol. Ni ddisgwylir y byddai angen symud unrhyw bridd yn yr ardal hon ac ni ddylai fod angen tynnu'r wal chwaith. Bydd y patio'n cael ei godi o fewn yr ardal honno sydd wedi cael ei hamgylchynu gan y wal.

Ardaloedd F & G: Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 600mm o lefel y ddaear.

Ardal H: Mae'r ardal hon wedi ei phalmantu ar hyn o bryd a bydd concrit tywallt yn cymryd lle'r cerrig pafin ac ni fydd angen gwneud unrhyw waith adfer o dan y llain concrit newydd. Tybir y bydd angen gwneud i ffwrdd â rhywfaint o'r pridd o'r ardal hon, fodd bynnag, ni ddylai fod angen tynnu'r wal i lawr.

SCHEDULE 1

REMEDIATION WORKS

3 Craig Y Don

This is a Council owned semi-detached residential property. It is in the south west quarter of the estate quite close to the former works building (which may be of interest to the archaeologists). The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is only possible via a pathway to the side of the house which can be seen in a photo in Figure B1 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area B: This area is lawn. The area is large enough to create a driveway (using permeable materials), although some of the area will remain as lawn following remediation.

In the driveway area soil removal would be required sufficient to form the driveway at the appropriate elevation. Permission to install the drop kerb has been obtained but the contractor will be required to obtain the necessary licence from the highway authority to undertake the work in the road. In the lawn area the depth of remediation will be 300mm followed by reinstatement to lawn.

Area C: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm from ground level.

Area D: This is a gravel path and remediation is required, the depth of remediation will be 600mm from ground level.

Area E: This is a gravelled area bordered by a low decorative wall at the bottom of the garden. Creation of a concrete paved patio which will form a barrier to future exposure is proposed for this area. No soil removal is expected to be necessary in this area and the wall should not require removal. The patio will be formed within the walled area.

Areas F & G: These areas comprise lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 600mm from ground level.

Area H: This area is currently paved, it will be replaced with poured concrete, no remediation will be required below the new concrete hardstanding. Some soil removal has been assumed necessary in this area however. The existing wall should not require removal.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

11 Craig Y Don

Mae hwn yn eiddo preswyl preifat mewn teras. Fe'i lleolir yn ne-orllewin y stad yn eithaf agos at adeilad yr hen weithfeydd (a allai fod o ddiddordeb i'r archeolegwyr). Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ceir mynediad i gefn yr eiddo ar hyd llwybr cul wedi'i orchuddio wrth ochr y tŷ a gellir ei weld mewn ffotograff yn Ffigwr B2 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Mae'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn y mae angen eu hadfer wedi eu disgrifio isod.

Ardal B: Stribedyn cul o gerrig pafin dan y ffenestr ffrynt yw'r ardal hon ac mae mainc wedi cael ei gosod yma. Bwriedir creu llain o goncrit hydraiddd yn yr ardal hon, bydd yn lletach na'r ardal cerrig pafin ac yn ymestyn i Ardal C ond ni fydd yn fwy na 5m² i gyd. Bydd angen cael gwared ar bridd er mwyn codi'r patio ar y drychiad priodol a chan sicrhau bod digon o le rhyngddo a'r DPC.

Ardal C: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 300mm o lefel y ddaear. Bydd rhan o'r llain goncrit yn Ardal B yn ymestyn i Ardal C.

Ardal D: Ardal laswelltog fechan yw hon wrth ochr y drws ffrynt gyda llwybr concrit yn arwain ati. Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 300mm o lefel y ddaear.

Ardal E: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 600mm o lefel y ddaear. Bydd ardal ger y llwybr yng nghefn yr eiddo'n cael ei throï'n batio concrit ac ni fydd angen gwneud gwaith adfer o dan y patio hwnnw.

SCHEDULE 1

REMEDICATION WORKS

11 Craig Y Don

This is a privately owned terraced residential property. It is in the south west quarter of the estate quite close to the former works building (which may be of interest to the archaeologists). The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is via a narrow covered pathway to the side of the house which can be seen in a photo in Figure B2 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area B: This is a narrow strip of paving below the front window, there is a bench situated on it presently. It is proposed to create an area of permeable concrete hardstanding in this area, it will be wider than the current area of paving, extending into Area C, but no more than 5m² in total. Soil removal will be required sufficient to form the patio area at the appropriate elevation allowing for sufficient space from the DPC.

Area C: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm from ground level. Part of proposed concrete hardstanding in Area B will extend into Area C.

Area D: This is a small grassed area to the side of the front door which has a concrete path leading to it. This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm from ground level.

Area E: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 600mm from ground level. An area adjacent to the path at the rear of the property will be formed into a concrete patio, this will not require remediation below it.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

26 Craig Y Don

Mae hwn yn eiddo preswyl preifat mewn pâr. Fe'i lleolir yn ne-orllewin y stad ychydig ymhellach o'r hen adeilad gwaith na'r eiddo uchod. Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ni cheir mynediad i gefn yr eiddo ond drwy'r eiddo ei hun fel y gellir gweld yn Ffigwr B3 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Disgrifir isod yr ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn y mae angen eu hadfer.

Ardal A: Mae'r ardal hon wedi cael ei chloddio ar gyfer sylfeini ystafell wydr, fodd bynnag, nid yw'r preswlydd yn bwriadu adeiladu'r ystafell wydr mwyach ac o'r herwydd bydd yr ardal yn cael ei chynnwys yn y llain galed o goncrit hydraidd gydag Ardaloedd H, K ac I. Ni fydd angen cael gwared ag unrhyw bridd oherwydd mae'r gwaith cloddio a wnaed eisoes yn ddigon dwfn. Bydd y lefel derfynol yn ddigon isel oddi wrth DPC yr adeilad ar waelod yr ardd a wal gefn y tŷ.

Ardal B: Llwybr concrit sy'n arwain o'r giât ffyrnt i'r drws ffyrnt yw hwn. Bwriedir ymgorffori'r ardal yn y dreif o goncrit hydraidd gydag Ardal C & D. Bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd i sicrhau y gellir ffurfio'r dreif ar y drychiad priodol. Mae cyrbin isel eisoes ar gael.

Ardal C: Ardal fechan o gerrig pafin yr ardd ffyrnt yw hon ger llwybr concrit sy'n arwain o'r giât ffyrnt i'r drws ffyrnt (Ardal B). Bwriedir ymgorffori'r ardal yn y dreif o goncrit hydraidd gydag Ardal B & D. Bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd i sicrhau y gellir ffurfio'r dreif ar y drychiad priodol. Mae cyrbin isel eisoes ar gael.

Ardal D: Ardal o raeon sy'n cael ei defnyddio fel lle i barcio trelar. Bwriedir ymgorffori'r ardal yn y dreif o goncrit hydraidd gydag Ardal B & C. Bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd i sicrhau y gellir ffurfio'r dreif ar y drychiad priodol. Mae cyrbin isel eisoes ar gael.

Ardal E: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 300mm o lefel y ddaear.

Ardal H: Mae hon yn ardal balmentog anghyflawn. Y cynnig yw gorchuddio'r ardal gyfan gyda llain o goncrit hydraidd a'i lledu i ymgorffori Ardaloedd K, A ac I hefyd. Bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd i sicrhau y gellir ffurfio'r patio o goncrit hydraidd ar y drychiad priodol ac y bydd yn ddigon isel o dan DPC yr adeilad ar waelod yr ardd a wal gefn y tŷ.

Ardal I: Roedd yr ardal hon i fod yn rhan o ystafell wydr, fodd bynnag, nid yw'r preswlydd yn bwriadu adeiladu'r ystafell wydr mwyach ac o'r herwydd bydd yr ardal yn cael ei chynnwys yn y patio o goncrit hydraidd gydag Ardaloedd A, H, a K. Bydd angen cael gwared â digon o bridd i ffurfio'r

patio o goncrit hydraidd ar y drychiad priodol gan ganiatáu iddo fod yn ddigon isel oddi wrth DPC yr adeilad ar waelod yr ardd a wal gefn y tŷ.

Ardal J: Mae gwely wedi'i godi yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn yr ardal hon. Mae'n cael ei godi o frics ond nid yw'r gwaith wedi'i orffen. Y cynnig yw i'r gwely gael ei leinio a'i lenwi gyda phridd glân addas i ddyfnder o 600mm. I sicrhau'r dyfnder hwn, efallai y bydd angen cloddio rhywfaint o'r pridd sydd ar ei waelod ar hyn o bryd.

Bydd dyfnder y pridd glân yn y gwely wedi'i godi yn 600mm o dop y gwely wedi'i godi.

Ardal K: Lawnt yw'r ardal hon ar hyn o bryd. Y cynnig yw gorchuddio'r ardal gyfan gyda llain o goncrit hydraidd a'i lledu i ymgorffori Ardaloedd A, H ac I hefyd. Bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd i sicrhau y gellir ffurfio'r patio o goncrit hydraidd ar y drychiad priodol ac y bydd yn ddigon isel o dan DPC yr adeilad ar waelod yr ardd a wal gefn y tŷ.

SCHEDULE 1

REMEDICATION WORKS

26 Craig Y Don

This is a privately owned semi-detached residential property. It is in the south west quarter of the estate a little further from the former works building than the above properties. The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is only possible through the property itself as can be seen in Figure B3 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area A: This has been dug out for a foundation of a conservatory, however the resident is no longer building the conservatory and this area will therefore become encompassed within the permeable concrete hardstanding of Area H, K and I. No soil removal will be required due to the existing excavation being of sufficient depth. The final level will be sufficiently below the DPC of the building at the bottom of the garden and the rear wall of the house.

Area B: This is a concrete path leading from the front gate to the door. It is proposed to incorporate the area into a permeable concrete driveway with Area C & D. Soil removal will be required sufficient to form the driveway at the appropriate elevation. A drop kerb is already present.

Area C: This is a small paved area in front of the garden adjacent to the concrete path leading from the front gate to the door (Area B). It is proposed to incorporate the area into a permeable concrete driveway with Area B & D. Soil removal will be required sufficient to form the driveway at the appropriate elevation. A drop kerb is already present.

Area D: This is a gravelled area being used as parking for a trailer. It is proposed to incorporate the area into a permeable concrete driveway with Area B & C. Soil removal will be required sufficient to form the driveway at the appropriate elevation. A drop kerb is already present.

Area E: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm from ground level.

Area H: This is an incomplete paved area. The proposal is to cover the area entirely in a permeable concrete hardstanding and widen it to incorporate Area K, A and I too. Soil removal will be required sufficient to form the permeable concrete patio at the appropriate elevation, allowing for it to be sufficiently below the DPC of the building at the bottom of the garden and the rear wall of the house.

Area I: This area was to be part of a proposed conservatory, however the resident is no longer building the conservatory and this area will therefore become encompassed within the permeable concrete patio of Area A, H and K. Soil

removal will be required sufficient to form the permeable concrete patio at the appropriate elevation, allowing for it to be sufficiently below the DPC of the building at the bottom of the garden and the rear wall of the house.

Area J: A raised bed is currently being constructed in this area, it is brick built but unfinished. The proposal is for the bed to be lined and filled with suitable imported clean soils 600mm in depth. To achieve this depth it may be necessary to excavate some of the existing soils at the base.

Depth of clean soils within the raised bed shall be 600mm from the top of the raised bed.

Area K: This is a currently lawn. The proposal is to cover the area entirely in a permeable concrete hardstanding and widen it to incorporate Area A, H and I too. Soil removal will be required sufficient to form the permeable concrete patio at the appropriate elevation, allowing for it to be sufficiently below the DPC of the building at the bottom of the garden and the rear wall of the house.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

35 Craig Y Don

Tŷ preswyl pâr sy'n eiddo i'r Cyngor yw hwn. Fe'i lleolir yng ngogledd orllewin y stad ac ymddengys ei fod ar safle adeilad yr hen weithfeydd (a all fod o ddiddordeb i'r archeolegwyr). Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ceir mynediad i'r eiddo ar hyn o bryd ar hyd llwybr sy'n rhedeg wrth ochr y tŷ ac sydd i'w weld yn Ffigwr B4 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Ceir disgrifiad isod o'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn sydd angen eu hadfer.

Ardal A: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud 600mm o lefel y ddaear er y gellir codi'r tir drwy adeiladu ymyl ar hyd y llwybrau yn ffrynt y tŷ. Bydd hyn yn lleihau dyfnder y gwaith cloddio pridd ond bydd angen proffilio lefel y ddaear er mwyn sicrhau ei fod yn goleddfu i lawr i ochr y tŷ.

Ardal B: Ardal fechan o bridd agored ar y gornel yn ffrynt y tŷ sydd wedi ei hamgylchynu gan y llwybr concrit sy'n ymestyn o'r drws ffrynt rownd ochr yr eiddo. Cynigir codi patio o goncrit hydraidd yma. Bydd angen cloddio digon o bridd i sicrhau bod y patio ar yr un lefel â'r llwybr sydd gerllaw.

Ardal D: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer, bydd dreif a phatio o goncrit hydraidd yn cael eu creu yn yr ardal hon a bydd rhywfaint yn cael ei chadw fel lawnt. Bydd dyfnder y gwaith adfer yn 600mm o lefel y ddaear yn ardal y lawnt

Ni fydd angen gwneud gwaith adfer dan y dreif a'r patio a bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd i adeiladu'r dreif a'r patio ar ddrychiad priodol sy'n goleddfu i ffwrdd o'r tŷ. Nid oes angen cyrbîn isel oherwydd bod lle parcio ar gael yng nghefn yr eiddo. Ceir mynediad i'r dreif drwy agoriad yn y ffin yng nghefn y tŷ sy'n cysylltu i'r llecyn parcio a dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer 2 o byst pren a giât ddwbl bren gyda chlo ar gyfer mynediad gyda'r pyst yn cael eu cysylltu i'r ffens gadwyn bresennol.

SCHEDULE 1

REMEDIATION WORKS

35 Craig Y Don

This is a Council owned semi-detached residential property. It is in the north west quarter of the estate and appears to be on the area of the former works building (which may be of interest to the archaeologists). The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is currently via a pathway to the side of the house which can be seen in a photo in Figure B4 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area A: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 600mm from ground level although land raising can be achieved by constructing edging along the side of the paths to the front of the house. This will reduce the depth of excavation of existing soils but the ground level will need profiling to ensure it slopes down to the side of the house.

Area B: This is a small area of exposed soil on the corner of the front of the house which is surrounded by the concrete path which extends from the front door around the side of the property. It is proposed to form a permeable concrete patio area here. Sufficient soil removal will be required, sufficient to form the patio flush with the adjacent path.

Area D: This area comprises lawn and remediation is required, a permeable concrete driveway and patio will be created in this area in addition to a portion remaining as lawn. The depth of remediation will be 600mm from ground level in the lawn area.

The driveway and patio will not require remediation below them and soil removal will be required sufficient to form the driveway and patio at an appropriate elevation and sloping away from the house. A drop kerb is not required due to the car park area at the rear of the property. Access to the driveway would be via an opening in the rear boundary which joins the car parking area and provision should be included for 2 wooden posts and a lockable wooden access double opening gate, the posts are to be connected to the existing chain link fence.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

36 Craig Y Don

Tŷ preswyl pâr preifat yw hwn. Fe'i lleolir yng ngogledd orllewin y stad ac ymddengys ei fod ar safle adeilad yr hen weithfeydd (a all fod o ddiddordeb i'r archeolegwyr). Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ceir mynediad i'r eiddo ar hyn o bryd ar hyd llwybr sy'n rhedeg wrth ochr y tŷ ac sydd i'w weld yn Ffigwr B5 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Ceir disgrifiad isod o'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn sydd angen eu hadfer.

Ardal A: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud 300mm o lefel y ddaear.

Ardal B: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer, bydd dreif a phatio o goncrit hydraidd yn cael eu creu yn yr ardal hon.

Ni fydd angen gwneud gwaith adfer dan y dreif a'r patio a bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd i adeiladu'r dreif a'r patio ar ddrychiad priodol sy'n goleddfu i ffwrdd o'r tŷ. Nid oes angen cyrbin isel oherwydd bod lle parcio ar gael yng nghefn yr eiddo. Ceir mynediad i'r dreif drwy agoriad yn y ffin yng nghefn y tŷ sy'n cysylltu i'r llecyn parcio a dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer 2 o byst pren a giât bren gyda chlo ar gyfer mynediad gyda'r pyst yn cael eu cysylltu i'r ffens gadwyn bresennol.

Ardal D: Ardal fechan yw hon yn cynnwys lawnt gyda cherrig mawr arni yn y gornel yn ffrynt y tŷ sydd wedi'i hamgylchynu gan y llwybr concrit sy'n ymestyn o'r drws ffrynt rownd ochr yr eiddo. Bydd gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 300mm o lefel y ddaear a bydd yn cael ei ailsefydlu'n fordor pridd ar gyfer plannu.

SCHEDULE 1

REMEDIATION WORKS

36 Craig Y Don

This is a privately owned semi-detached residential property. It is in the north west quarter of the estate and appears to be on the area of the former works building (which may be of interest to the archaeologists). The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is via a pathway to the side of the house which can be seen in a photo in Figure B5 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area A: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm from ground level.

Area B: This area comprises lawn and remediation is required, a permeable concrete driveway and patio will be created in this area.

The driveway and patio will not require remediation below them and soil removal will be required sufficient to form the driveway and patio at an appropriate elevation and sloping away from the house. A drop kerb is not required due to the car park area at the rear of the property. Access to the driveway would be via an opening in the rear boundary which joins the car parking area and provision should be included for 2 concrete posts and a lockable wooden access gate. The concrete posts are to be connected to the existing chain link fence.

Area D: This is a small area of lawn with large stones within it on the corner of the front of the house which is surrounded by the concrete path which extends from the front door around the side of the property. The depth of remediation will be 300mm from ground level and it will be reinstated to a soil planting border.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

38 Craig Y Don

Tŷ preswyl pâr preifat yw hwn. Fe'i lleolir yng ngogledd orllewin y stad acymddengys ei fod ar safle adeilad yr hen weithfeydd. Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ceir mynediad i gefn yr eiddo ar hyn o bryd ar hyd llwybr sy'n rhedeg wrth ochr y tŷ ac sydd i'w weld yn rhannol mewn ffotograff yn Ffigwr B6 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Ceir disgrifiad isod o'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn sydd angen eu hadfer.

Ardal B: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 300mm.

Ardal C: Mae'r ardal hon yn cynnwys graean a bwriedir creu llain galed o ddeunydd hydraiddd yn yr ardal hon ac ni fydd angen gwneud gwaith adfer dan y llain galed.

Ardal D: Mae'r ardal hon yn cynnwys graean a bwriedir creu llain galed o ddeunydd hydraiddd yn yr ardal hon ac ni fydd angen gwneud gwaith adfer dan y llain galed. Mae angen codi giât bren newydd, pyst pren a ffens bren fer yn yr ardal hon yn y man lletaf rhwng y tŷ a'r wal derfyn a hynny yn lle'r ffens bren bresennol y bydd angen ei thynnu i lawr yn ôl pob tebyg fel y gellir gwneud y gwaith.

Ardal E: Mae'r ardal hon yn cynnwys graean a bydd dyfnder y gwaith adfer 600mm o lefel y wyneb graean.

Area F: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt a bydd dyfnder y gwaith adfer 600mm o lefel y ddaear.

Ardal G: Mae'r ardal hon yn cynnwys concrit ac mae oddeutu hanner yr ardal hon (sydd bellaf draw o'r tŷ) wedi datgymalu neu wedi cracio ac mae angen gosod wyneb newydd yn ei le. Bydd llain galed o ddeunydd hydraiddd yn cael ei gosod yn lle'r concrit sydd wedi cracio ac ni fydd angen gwneud unrhyw waith adfer o dan y llain galed.

SCHEDULE 1

REMEDIATION WORKS

38 Craig Y Don

This is a privately owned semi-detached residential property. It is in the north west quarter of the estate and appears to be on the area of the former works building. The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is via a pathway to the side of the house which can be partly seen in a photo in Figure B6 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area B: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm.

Area C: This area comprises gravel and it is proposed to create permeable hardstanding in this area, remediation will not be required below the hardstanding.

Area D: This area comprises gravel and it is proposed to create permeable hardstanding in this area, below which no remediation is required. A new wooden gate, wooden posts and short wooden fence needs to be erected in this area at the widest location between the house and the boundary wall, this will replace the existing wooden fence which is likely to require dismantling for the works.

Area E: This area comprises gravel, the depth of remediation shall be 600mm from the level of the gravelled surface.

Area F: This area comprises lawn, the depth of remediation shall be 600mm from ground level.

Area G: This area comprises concrete, approximately half of this area (furthest away from house) is poorly jointed or cracked and is in need of replacement. A permeable hardstanding will replace the cracked concrete, no remediation will be required below the hardstanding.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

92 Craig Y Don

Tŷ preswyl ar ddiwedd teras yw hwn ac mae'n eiddo i'r Cyngor. Fe'i lleolir yn ne ddwyrain y safle ac mae'n agos at adeilad yr hen weithfeydd (a all fod o ddiddordeb i'r archeolegwyr). Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ceir mynediad i gefn yr eiddo ar hyn o bryd ar hyd llwybr sy'n rhedeg wrth ochr y tŷ ac sydd i'w weld yn rhannol mewn ffotograff yn Ffigwr B7 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Ceir disgrifiad isod o'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn sydd angen eu hadfer.

Ardal A: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 600mm. Bydd ardal 16m² yn cael ei throï'n batio. Dylai'r contractwr gymryd i ystyriaeth gorchudd twll archwilio sydd yn yr ardal hon a bydd angen gweithio o'i gwmpas. Ni fydd angen gwneud gwaith adfer dan y patio ond bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd er mwyn sicrhau y gellir creu'r patio ar ddrychiad priodol (ar yr un lefel â'r llwybr). Bydd lawnt yn cael ei hail-osod ar weddill yr ardal (heb gynnwys y patio).

Ardal B: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt a bwriedir ei hymgorffori yn y llwybr presennol (Ardal C) sy'n ei hamgylchynu. Bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd er mwyn sicrhau y gellir creu'r llwybr ar ddrychiad priodol.

Ardal D: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt ac mae angen gwneud gwaith adfer a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i ddyfnder o 300mm.

SCHEDULE 1

REMEDATION WORKS

92 Craig Y Don

This is a Council owned end terrace residential property. It is in the south east quarter of the estate and is close to the area of the former works building (which may be of interest to the archaeologists). The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is via a pathway to the side of the house which can be partly seen in a photo in Figure B7 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area A: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 600mm. An area 16m² will be formed into a patio. The contractor should allow for the existence of a manhole cover in this area, works will be required to take place around this feature. The patio will not require remediation below it, only soil removal will be required sufficient to form the patio at an appropriate elevation (flush with the path). The remaining area (not patio) will be restored to lawn.

Area B: This area comprises lawn and it is proposed to incorporate it into the existing pathway (Area C) which surrounds it. Soil removal will be required sufficient to form the pathway at an appropriate elevation.

Area D: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

94 Craig Y Don

Tŷ preswylr pâr mewn perchenogaeth breifat yw hwn. Fe'i lleolir yn ne ddwyrain y safle ac mae'n ymddangos ei fod yn rhannol ar safle'r hen weithfeydd (a all fod o ddiddordeb i'r archeolegwyr). Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ceir mynediad i gefn yr eiddo ar hyn o bryd ar hyd llwybr sy'n rhedeg wrth ochr y tŷ ac sydd i'w weld yn rhannol mewn ffotograff yn Ffigwr B8 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Ceir disgrifiad isod o'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn sydd angen eu hadfer.

Ardal A: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt a bydd angen gwneud gwaith i ddyfnder o 600mm, dylai fod modd codi'r tir yn yr ardal hon er mwyn gostwng dyfnder y gwaith cloddio y byddai'n rhaid ei wneud. Bydd angen gosod cyrbin ar ymyl y lawnt ar hyd y ffiniau.

Ardal C: Mae'r ardal hon yn cynnwys lawnt a bydd angen gwneud gwaith i ddyfnder o 300mm, dylai fod modd codi'r tir yn yr ardal hon er mwyn gostwng dyfnder y gwaith cloddio y byddai'n rhaid ei wneud. Bydd angen gosod cyrbin ar ymyl y lawnt ar hyd y ffiniau.

Ardal D: Mae'r ardal hon yn cynnwys ardal sydd wedi cael ei graeanu a bydd angen gwneud gwaith adfer i ddyfnder o 300mm.

Ardal E: Bydd decin yn cael ei osod yn yr ardal hon a bydd yn cael ei osod ar ben y llain galed sydd eisoes yn bodoli. Dylai'r *Contractwr* gymryd i ystyriaeth gorchudd y twll archwilio sydd wedi'i leoli yn ardal y patio. Ni fydd angen gwneud i ffwrdd ag unrhyw bridd. Mae'r preswlydd wedi mynegi awydd i ostwng y step i lawr o'r drws cefn (oddeutu 9 modfedd); o'r herwydd bydd y decin ar ddrychiad a fydd angen step sylweddol is i lawr.

Ardal F: Bydd gwely wedi'i godi yn cael ei greu yn yr ardal hon.

Ardal H: Llain galed yw'r ardal hon yn bennaf ac mae'r preswlydd yn dymuno cael llecynnau caled ychwanegol ar gyfer codi tŷ gwydr neu sied yn y dyfodol a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r tŷ gwydr cyfredol ar y ffin yn y cefn. Ni fydd angen gwneud unrhyw waith adfer o dan y llain galed o goncrit; bydd angen cael gwared â digon o bridd er mwyn sicrhau y gellir ei ffurfio ar ddrychiad priodol. Mae'r preswlydd wedi dweud bod siambr ar gyfer mesurydd dŵr wedi'i lleoli yn yr ardal hon ac y bydd angen gwneud trefniadau er mwyn sicrhau y gellir parhau i'w defnyddio drwy greu ymyl o gwmpas y siambr archwilio.

SCHEDULE 1

REMEDIATION WORKS

94 Craig Y Don

This is a privately owned semi-detached residential property. It is in the south east quarter of the estate and appears to be partly on the area of the former works building (which may be of interest to the archaeologists). The property includes garden areas to the front and rear. Access to the rear of the property is via a pathway to the side of the house which can be partly seen in a photo in Figure B8 of the Remediation Options Appraisal. The areas at this property requiring remediation are described below.

Area A: This area comprises lawn and the depth of remediation will be 600mm, land raise should be possible in this area to reduce the depth of excavation required. Lawn edging kerbs will be required along boundaries.

Area C: This area comprises lawn and remediation is required, the depth of remediation will be 300mm, land raise may be possible in this area to reduce the depth of excavation required. Lawn edging kerbs will be required along boundaries.

Area D: This area comprises a gravel area, the depth of remediation will be 300mm.

Area E: Decking will be created in this area, it will overlie the existing ground cover (hardstanding). The *Contractor* should allow for the existence of a manhole cover within the location of the patio area. No soil removal will be required. The resident has expressed the desire to reduce the step down from the back door (approximately 9 inches), therefore the decking will be at an elevation that requires a significantly smaller step down.

Areas F: A raised bed will be created in this area.

Area H: This area is primarily hardstanding, the resident wishes to have additional hard standing areas for a future greenhouse or shed running parallel to the existing greenhouse to the rear boundary. The concrete hardstanding will not require remediation below it; soil removal will be required sufficient to form an appropriate elevation. The resident has advised that a water meter chamber is located in this area and arrangements will need to be made to ensure its continued use by creating an inspection chamber surround.

ATODLEN 1

GWAITH ADFER

95 Craig Y Don

Tŷ pâr mewn perchenogaeth breifat yw hwn. Fe'i lleolir yn ne ddwyrain y safle ac mae'n ymddangos ei fod yn rhannol ar safle'r hen weithfeydd (a all fod o ddiddordeb i'r archeolegwyr). Mae'r eiddo'n cynnwys gerddi i'r tu blaen a'r cefn. Ni cheir mynediad i gefn yr eiddo ar hyn o bryd ond ar hyd llwybr sy'n rhedeg wrth ochr y tŷ ac sydd wedyn yn rhedeg rhwng adeilad bychan yn y cefn, gellir gweld hyn mewn ffotograff yn Ffigwr B9 y Gwerthusiad o'r Opsiynau Adfer. Ceir disgrifiad isod o'r ardaloedd hynny yn yr eiddo hwn sydd angen eu hadfer. Mae'r hyn sy'n edrych fel deunydd toi sment rhychiog gydag asbestos wedi cael ei gladdu'n rhannol ger y sied yng nghefn y tŷ.

Ardal B: Ardal o gerrig pafin yw hon a bwriedir gorchuddio'r ardal mewn llain galed goncrit i ffurfio patio a bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd er mwyn sicrhau y gellir ffurfio'r patio concrit ar y drychiad priodol gan gymryd i ystyriaeth y llwybr presennol sydd gerllaw. Ni fydd angen gwneud unrhyw waith adfer o dan y llain galed.

Ardal C: Mae cerrig pafin wedi cael eu gosod ar yr ardal hon a bwriedir gorchuddio'r ardal mewn llain galed o goncrit i ffurfio patio (ynghyd â rhan o Ardal E), a bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd er mwyn sicrhau y gellir ffurfio'r patio concrit ar y drychiad priodol gan gymryd i ystyriaeth y llwybr presennol sydd gerllaw. Ni fydd angen gwneud unrhyw waith adfer o dan y llain galed.

Ardal D: Mae cerrig pafin wedi cael eu gosod ar yr ardal hon a bwriedir gorchuddio'r ardal mewn llain galed o goncrit ar gyfer sylfaen y sied. Bydd angen gwneud i ffwrdd â digon o bridd er mwyn sicrhau y gellir ffurfio sylfaen ar gyfer y sied ar y drychiad priodol. Ni fydd angen gwneud unrhyw waith adfer o dan y llain galed.

Ardal E: Lawnt yw'r ardal hon a bydd angen gwneud gwaith adfer i ddyfnder o 600mm (bydd rhan fechan yn cael ei defnyddio ar gyfer y patio lle bydd Ardal C yn cael ei hystreyn). Bydd angen codi'r tir drwy osod cerrig cyrbîn ar hyd ymyl y lawnt er mwyn cynyddu'r uchder.

